

CLYNNOG, MORGAN (1558 - wedi 1619), offeiriad seminaraidd

Enw: Morgan Clynnog
Dyddiad geni: 1558
Dyddiad marw: wedi 1619
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: offeiriad seminaraidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Martin Cleary

Ymaelododd yn y coleg Saesneg, Rhufain, oed 21. Wedi'r cynnwrf a fu'n achos symud ei ewythr, y **Doctor Morys Clynnog**, o swydd rheithor y coleg Saesneg, efe oedd yr efrdydd Cymraeg cyntaf i gymryd y llw cenhadol, 23 Ebrill 1579. Ordeiniwyd ef yn offeiriad, a dychwelodd i'w wlad enedigol yn 1582. Cyfeiria llythyr a ysgrifennwyd ym Mai neu Fehefin 1587, ato mewn cysylltiad ag offeiriad seminaraidd eraill, ac yn 1588 ceir ei enw - ' Clneycke Morgan ' - ar restr yr **Arglwydd Burghley** o offeiriad yng Nghymru. Gwyddys iddo ddywedyd yr offeren yn Llandeilo yn 1590, ac iddo wasanaethu mewn lleoedd eraill yn Sir Gaerfyrddin. Yr oedd ym Margam yn 1591. Yn 1596 yr oedd yn trigo gyda Jenkin Turberville ym Mhen-llyn, Morgannwg; ac yr oedd yno o hyd yn 1602. Yn 1606 dug y Benedectin **David Augustine Baker** ef i'r Fenni i ail-gymodi'i dad, William Baker, ag Eglwys Rufain, a cheryddodd yr henwr ef am frygawthian ei Ladin. Danfonai wŷr ieuaic dros y môr i seminarïau Douai a Valladolid, a chyd-weithiai'n dangnefeddus â'r leswitiaid ac offeiriad seciwlar eraill am o leiaf 37 flynedd. Dyrchafwyd ef yn gynorthwyr i'r 'Archoffeiriad' (Archpriest) erbyn 1600. A phan glywir amdano am y tro olaf ar 2 Rhagfyr 1619, yr oedd yn brif gynorthwyr. Dengys hyn y parch uchel a ddangosid tuag ato gan ei gydgrefyddwyr yng Nghymru a Lloegr.

Awdur

John Martin Cleary

Ffynonellau

Catholic Record Society, ii, 133; v. 143; x, 28, 175; xxii, 127; xxx, 68; xxxiii, 91-2; xxxvii, 20

The Second Douay Diary, 297

E. G. Jones, *Cymru a'r Hen Ffydd*, 34 and 36

South Wales Record Society, iii, 51

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q18819710**

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA



Cleary, J. M., (1970). CLYNNOG, MORGAN (1558 - wedi 1619), offeiriad seminaraidd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-CLYN-MOR-1558>

Clipwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government